



Adroddiad Cyfarfod
13:10:21
Noson Blodau Gobaith

Croesawodd Anne Elis, y Llywydd, yr aelodau i'r cyfarfod yn y Neuadd ar nos Fercher Hydref 13eg.

Anfonwyd dymuniadau gorau i Mair Williams oedd yn mynd i Ysbyty Gwynedd drannoeth am lawdriniaeth. Gobeithiwn y gwelwn Mair fis nesaf ar ôl iddi gael y pen-glin newydd.

Anfonwn ein cofion at Alys Jones sydd wedi brifo ei phen-glin ac wedi methu'r cyfarfod yn dilyn hynny.

Braf oedd clywed fod Gwyneth Williams, Llain yr Ardd, yn mendio a'i bod wedi ymaelodi eto eleni gan obeithio dod i'r cyfarfodydd yn y gwanwyn.

Dymuniadau gorau hefyd i fab Gwyneth Jones, Y Fachell. Ar ôl gorfod canslo fwy nag unwaith, mae Dafydd yn priodi Kim mis yma ym Mhortmeirion.

Llongyfarchiadau i Eleri Warrington ar ddod yn nain eto. Croeso mawr i Alys Mai, merch fach Dafydd a Vicky.

Llongyfarchiadau i Begw Elaine, wyres Eryl Roberts, am ddod yn ail yn yr Eisteddfod Amgen am adrodd.

Dymunwyd pen-blwydd hapus i Rita Dauncey Williams.

Dymunwyd yn dda i Dewi, gŵr Nan Rowlands, sydd wedi ei godi yn flaenor yn Y Cysegr. Dymuniadau da i Myfanwy Harper hefyd a gafodd ei chodi yn flaenor yn yr un cyfarfod.

Cydymdeimlwyd ag Ellen Ellis ar golli ei chwaer yn ddiweddar, ac roedd Ellen wedi anfon neges i ddiolch i bawb am eu caredigrwydd.

Anfonwyd cofion at Nora Parry a'i gŵr Wil sydd wedi cael y Covid. Clywsom fod Wil yn yr ysbyty gyda'r salwch ond ei fod yn dechrau gwella.

Dosbarthwyd bwydlen ar gyfer ein Cinio Nadolig yn Perthyn a gofynnwyd i ni ddod a'n dewisiadau a'r arian mewn amlen i'r cyfarfod nesaf ar Dachwedd 10fed.

Mae manylion y Cwis Hwyl Merched Y Wawr wedi cyrraedd. Gallwch ei wneud ar-lein neu gallwch ofyn am gopi caled. Bydd angen cwblhau'r cwis

erbyn Tachwedd 4ydd a bydd noson Zoom ar Dachwedd 12fed i roi'r atebion a'r canlyniadau.

Aethon ymlaen i fwynhau creu Blodau Gobaiith. Roedd grŵp Rhian Hughes ac Anwylyd Jones yn creu blodau o ffelt, grŵp Mair Read yn creu blodau wrth grosio, a grŵp Valmai Owen yn gweu eu blodau. Diolchwyd i'r pedair am rannu eu doniau gyda'r aelodau. Roedd cyfle i sgwrsio a chymdeithasu yn ystod y gweithgareddau, a bydd Anne Elis ein Llywydd yn trosglwyddo'r blodau i Aberystwyth iddynt gael eu harddangos yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Nhregaron flwyddyn nesaf.

Diolchwyd i Mary Evans am roi'r raffl a enillwyd gan Eryl Roberts.

Yn ein cyfarfod nesaf ar Dachwedd 10fed bydd Llinos Angharad yn trafod addurno teisennau, ac mae sôn y bydd yna gystadleuaeth fach yn ystod y noson. Edrychwn ymlaen i'r Bethel 'Bake Off'!